

Caws Teifi

Gwneuthurwyr caws Ilaeth amrwd hynaf Cymru, a sefydlwyd ym 1982.



ArloesiAber
AberInnovation


CYSYLLTWCH Â NI: INNOVATE@ABER.AC.UK
ABERINNOVATION.COM
[@ABERINNOVATION](https://twitter.com/ABERINNOVATION)



Mae Caws Teifi yn cynhyrchu caws a chynhyrchion eraill Ilaeth amrwd, gan ddefnyddio dulliau cynhyrchu organig ar fferm Ilaeth Glynhydod. Fel busnes teuluol, mae hyrwyddo datblygiad cynhyrchu caws ac addysg yn y diwydiant Ilaeth wrth wraidd y busnes. Mae caws wedi'i wneud o Ilaeth amrwd yn cynnig amrywiaeth o fanteision iechyd ac mae gan gwmni Caws Teifi dros ddeugain mlynedd o brofiad ohoni, fel un o Ilaethdai Ilaeth amrwd unigryw'r genedl.

AMCANION

Nod Caws Teifi yw cynnig dewis o gynnyrch Ilaeth amrwd diogel ac iach i'w cymuned leol a'u cwsmeriaid am bris fforddiadwy, a'i nod yw bod yn gyflogwr gwerthfawr a moesegol yng nghymuned wledig Gorllewin Cymru.



PROSIECTAU

Mae Caws Teifi wedi elwa o ddwy o raglenni cefnogi busnes ArloesiAber a chael mynediad at arbenigedd technegol ym mhrosiect ArloesiAber ar gyfer y prosiect Addewidion Celtaidd.

Mae Caws Teifi yn ceisio gwireddu'r holl bosibiliadau ar gyfer eu hystod cynnyrch, yn enwedig gan mai ychydig iawn o wneuthurwyr caws Ilaeth amrwd sy'n cynhyrchu cynhyrchion caws croen wedi'i olchi yn y DU.

Nod eu hymrwymiad i ymchwil a datblygu yw lliniaru unrhyw risg yn eu cynnig cynnyrch, ac aros yn driw i'w gwreiddiau crefftus drwy osgoi defnyddio ychwanegion lle bo modd, gan sicrhau ansawdd y cynnyrch i gwsmeriaid.

Mae gwaith ymchwil a datblygu diweddar wedi cadarnhau nad yw sodiwm nitrad yn fuddiol i iechyd pobl mewn meintiau mawr, ac felly mae Caws Teifi wedi symud i ffwrdd o ddefnyddio cadwolion ac wedi archwilio datrysiadau eraill i'w hychwanegu at eu caws, gan sicrhau bod gan ddefnyddwyr fwy o ddewis o ran cynnyrch Ilaeth, nid llai.

"Mae wedi bod yn fonws enfawr i'r cwmni gael mynediad i ofod labordy lleol a'r ystafelloedd Dadansoddi Manwl i gynnal gwiriadau proses cynnyrch ac ansawdd."

HERIAU

- Herio camsyniadau ynghylch hyfywedd cynnyrch llaeth amrwd
- Costau cynyddol yn y broses gynhyrchu
- Llywio rheoliadau cynyddol yn y diwydiant
- Proses gynhyrchu gymhleth a datblygu gwelliannau
- Effaith amgylcheddol o ran y prosesau cynhyrchu

DATRYSIADAU

- Datblygu blasau cynnyrch
- Cynhyrchu ar raddfa fechan i leihau effeithiau amgylcheddol
- Datblygu cynhyrchion o ansawdd uwch a phrofi cynhwysion newydd
- Mae hwsmonaeth wrth wraidd ein Gweithrediadau

GEIRDA



LLUN GAN
HEATHER BIRNIE

"Yn ddiweddar buom yn cydweithio ag ArloesiAber a'u tîm technegol i gynnal ymchwil a datblygu ar ein hystod o gynnyrch Addewidion Celtaidd, sef caws croen wedi'i olchi, yn null caws Caerffili, gyda chroen ychydig yn llaith a phinc.

Ar ôl gweithio gydag arbenigwyr fel Eleanor Jones, microbiologydd ArloesiAber a'r Athro Hazel Davey ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae Caws Teifi bellach yn symud ymlaen gyda chanfyddiadau ein hymchwil, a'r cam nesaf yw achredu'r canlyniadau fel y gall ein gwaith ymchwiliol fynd ymlaen i lywio gwell rheoliadau diwydiannol."

- Robert-Jan Savage-Onstwedder,
Rheolwr Gyfarwyddwr

WWW.TEIFICHEESE.CO.UK/HOME
@CAWSTEIFICHEESE
FACEBOOK.COM/CAWSTEIFICHEESE

